

Gweledigaeth Drafnidiaeth Caerdydd

# Cwr y Gamlas a Gofod Digwyddiadau Ffordd y Brenin



Mae Cwr y Gamlas a gofod digwyddiadau Gofod Digwyddiadau Ffordd y Brenin yn rhan o gynllun gwella Dwyrain Canol y Ddinas.


Dyma'r ddogfen ymgynghori y cynigion ar gyfer Cwr Camlas ar Ffordd Churchill a Gofod Digwyddiad Gofod Digwyddiadau Ffordd y Brenin ar Ffordd y Brenin.

Mae'r ddogfen hon hefyd yn rhoi diweddariad ymgynghori ar gynllun Dwyrain Canol y Ddinas. Ers ymgynghori arno gyntaf ym mis Mai 2019 fel rhan o Gynlluniau Aer Glân y Cyngor, mae cynllun Dwyrain Canol y Ddinas wedi'i addasu.



# Cynnwys

Manteision	tudalen(nau)	3
Ymgynghoriad Cwr y Gamlas		
Manylion		4
Delweddu		5 - 6
Ymgynghoriad Gofod Digwyddiadau Ffordd y Brenin		
Manylion		7
Delweddu		8 - 9
Diweddariad ar ymgynghoriad Dwyrain Canol y Ddinas		
Manylion & Delweddu		10 - 17
Cludiadau Ardaloedd i Gerddwyr		18
Map Mynediad		19
Gwelliannau Trafnidiaeth Gyhoeddus		20
Cyflawni'r Rhaglen		21
Ansawdd Aer Caerdydd		22
Gwybodaeth Draenio Cynaliadwy		23
Gwybodaeth am Ynysoedd Bysiau		24



# Manteision

**YNG NGHAERDYDD MAE MANTEISION GWEITHGARWCH CORFFOROL BEICIO YN ATAL 13 O FARWOLAETHAU CYNNAR BOB BLWYDDYN SYDD Â GWERTH IDDO O £46 MILIWN**

Ffynhonnell: Bywyd Beic, 2019



## Aer Glân

Mae gennym gynllun Aer Glân sy'n ceisio mynd i'r afael â lefelau NO2 yn y tymor byr, ond rydym eisiau glanhau'r aer a anadlwn yn y ddinas gymaint â phosibl. Mae gwella dewisiadau teithio cynaliadwy a chynyddu nifer y teithiau a wneir trwy deithio llesol (cerdded a beicio) yn rhan allweddol o'r cynllun hwn.

## Seilwaith Trafnidiaeth Aml-foddol

Fel rhan o rwydwaith trafniadaeth aml-foddol effeithiol, bydd y cynllun hwn yn cysylltu canolfannau trafniadaeth allweddol, cyrchfannau manwerthu a hamdden a mannau addysg

## Cynaliadwyedd a Bioamrywiaeth

Bydd y cynllun yn ymgorffori'r dechnoleg ddiweddaraf ar gyfer systemau draenio sy'n gynaliadwy ac yn annog ac yn cefnogi bioamrywiaeth. Bydd coed yn cael eu plannu mewn pyllau arbenigol ynghyd â detholiad o wyrddni mewn blychau plannu sy'n cefnogi draenio. Bydd y llochesi bws hefyd yn 'wyrdd' gyda phlannu gwyllt ar y toeau i annog natur i'r ddinas.



## Ardaloedd Cyhoeddus

Mae'r cynllun yn ymgorffori dwy adran eithriadol o welliannau i ardaloedd cyhoeddus. Bydd Cwr y Gamlas a Gofod Digwyddiadau Ffordd y Brenin yn lefydd cyhoeddus disglair, bywiog, glân a deniadol at ddefnydd dyddiol a mannau digwyddiadau arbennig.

## Teithio Llesol ac Iechyd

Mae gennym dargedau uchelgeisiol ar gyfer teithio llesol yn y ddinas. Bydd canran y teithiau a wneir trwy ddulliau llesol yn parhau i gynyddu'n sylweddol, gyda beicio yn parhau i dyfu mewn poblogrwydd. Mae'r llwybr beicio diogel ac ar wahân hwn yn cyfrannu at yr uchelgais teithio llesol hwn.

## Traffig Trwodd

Bydd y cynllun yn helpu i gyfyngu ar y symudiad traffig trwodd diangen, gan ddarparu aer glanach ac amgylchedd canol dinas lawer gwell.

## Gwelliannau i Feysydd Parcio

Bydd y prif lwybrau i feysydd parcio canol y ddinas yn gweithredu'n fwy effeithlon, gyda gwelliannau ar gyffyrdd a mwy o arwyddion.

## Mesurau Blaenoriaethu Bysiau

Er mwyn hwyluso gwell symudiadau ar draws dinasoedd, rhoddir blaenoriaeth drwy'r cynllun i fysiau ar sawl cyffordd. Bydd symudiadau traws-ddinas yn cael eu gwella a bydd cysylltiadau cyflymach â'r Gyfnewidfa Drafnidiaeth Ganolog yn y Sgwâr Canolog yn cael eu creu.

## Teithio Cynaliadwy a Llesol

Mae'r cynllun yn hanfodol i wella rhwydweithiau'r ddinas ar gyfer teithio cynaliadwy a theithio llesol.

**MAE 32% O DEITHIAU MEWN CAR YN LLAI NA 3KM**

Ffynhonnell: Adroddiad Sylfaenol Ymchwil Ymddygiad Teithio Caerdydd

## Diogelwch Cerddwyr


Yn y cynllun drwyddi draw, mae croesfannau i gerddwyr yn cael eu huwchraddio a'u gwella. Nid yn unig y bydd diogelwch yn cael ei wella ond mae amseroedd croesi wedi'u hail gyfrifo a'u gwella.

**MAE MWY O BOBL YN BEICIO YN GWELLA ANSAWDD AER: ARBEDIR 14,000kg O NOx A 1,900kg O RONYNNAU YN LYNYDDOL**

Ffynhonnell: Bywyd Beic, 2019

# Cwr y Gamlas - Cam 1

Yn dilyn ymgynghoriad ym mis Mai 2019 fel rhan o Gynlluniau Aer Glân y Cyngor ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae cynllun Dwyrain Canol y Ddinas wedi'i addasu i gynnwys Cwr y Gamlas



# Cwr y Gamlas - Cam 1

- Adfer rhan o gamlas bwydo'r Doc yn ardal gyhoeddus werdd a chroesawgar.
- Plannu bywiog gan gynnwys amrywiaeth o fflora gydol y flwyddyn, coed a gerddi glaw i gefnogi'r seilwaith SDC.
- Trefniadau eistedd ar ffurf amffitheatr.
- Mannau bwyta a chymdeithasu al fresco.
- Seddi awyr agored ymhlith y plannu a chyda golygfeydd a synau dyfrffyrdd.
- Cyfleuster safle tacsis wedi'i leoli wrth y gyffordd â Stryd Ogleddol Edward.
- Pontydd a phlatfformau cantilifrog dros y gamlas.
- Nodwedd rhaeadr.
- Parcio beiciau yn y pen deheuol.



*Delweddu yn unig*

*\*Bydd unrhyw strwythurau fel cynwysyddion/caffis ac ati yn amodol ar gymeradwyaeth gynllunio.*



# Cwr y Gamlas - Cam 1

- Adfer rhan o gamlas bwydo'r Doc yn ardal gyhoeddus werdd a chroesawgar.
- Plannu bywiog gan gynnwys amrywiaeth o fflora gydol y flwyddyn, coed a gerddi glaw i gefnogi'r seilwaith SDC.
- Trefniadau eistedd ar ffurf amffitheatr.
- Mannau bwyta a chymdeithasu al fresco.
- Seddi awyr agored ymhlith y plannu a chyda golygfeydd a synau dyfrffyrdd.
- Cyfleuster safle tacsis wedi'i leoli wrth y gyffordd â Stryd Ogleddol Edward.
- Pontydd a phlatfformau cantilifrog dros y gamlas.
- Nodwedd rhaeadr.
- Parcio beiciau yn y pen deheuol.




*Delweddu yn unig*

*\*Bydd unrhyw strwythurau fel cynwysyddion/caffis ac ati yn amodol ar gymeradwyaeth gynllunio.*

# Gofod Digwyddiadau Ffordd y Brenin

Bydd enwi ffurfiol yn cael ei wneud yn ddiweddarach.



- Lôn feicio dau gyfeiriad sydd ar wahan
- Gwell manau cyhoeddus a sgwâr digwyddiadau
- Tanffordd i'w llenwi ac adeiladu croesfan i safon.
- Cynlluniau plannu bywiog drwy gydol y flwyddyn a SDC

# Gofod Digwyddiadau Ffordd y Brenin

Bydd enwi ffurfiol yn cael ei wneud yn ddiweddarach.

- Ardal gyhoeddus newydd i gerddwyr sy'n cynnwys palmant newydd a chyfleuster croesi i safon.
- Tanffordd wedi ei chau a'i hail-bwrpasu i ddefnydd amgen.
- Ardal gaffi newydd gyda pharcio ar gyfer beics.
- Lle creadigol hyblyg ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus; seddi y gellir eu trawsnewid yn stondinau marchnad.
- Coed a gerddi glaw yn cefnogi seilwaith SDC.



*Delweddu yn unig*

*\*Man Cyhoeddus i fod yn destun dewisiadau dylunio manwl a defnydd pellach. Gallai'r opsiynau gynnwys gofod digwyddiadau, nodwedd dŵr a/neu ardal gweithgareddau plant.*

*\*\*Bydd unrhyw strwythurau fel cynwysyddion/caffis ac ati yn amodol ar gymeradwyaeth gynllunio.*



# Gofod Digwyddiadau Ffordd y Brenin

Bydd enwi ffurfiol yn cael ei wneud yn ddiweddarach.

- Ardal gyhoeddus newydd i gerddwyr sy'n cynnwys palmant newydd a chyfleuster croesi i safon.
- Tanffordd wedi ei chau a'i hail-bwrpasu i ddefnydd amgen.
- Ardal gaffi newydd gyda pharcio ar gyfer beics.
- Lle creadigol hyblyg ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus; seddi y gellir eu trawsnewid yn stondinau marchnad.
- Coed a gerddi glaw yn cefnogi seilwaith SDC.




*Delweddu yn unig*

*\*Man Cyhoeddus i fod yn destun dewisiadau dylunio manwl a defnydd pellach. Gallai'r opsiynau gynnwys gofod digwyddiadau, nodwedd dŵr a/neu ardal gweithgareddau plant.*

*\*\*Bydd unrhyw strwythurau fel cynwysyddion/caffis ac ati yn amodol ar gymeradwyaeth gynllunio.*

# Dwyrain Canol y Ddinas


Yn dilyn ymgynghoriad ym mis Mai 2019 fel rhan o Gynlluniau Aer Glân y Cyngor ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae cynllun Dwyrain Canol y Ddinas wedi'i addasu i gynnwys Cwr y Gamlas



- Ailddyrannu lonydd priffyrdd
- Lôn feicio dau gyfeiriad sydd ar wahan
- Cyfleusterau croesi syth ar draws gwell

# Dwyrain Canol y Ddinas


Yn dilyn ymgynghoriad ym mis Mai 2019 fel rhan o Gynlluniau Aer Glân y Cyngor ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae cynllun Dwyrain Canol y Ddinas wedi'i addasu i gynnwys Cwr y Gamlas



- Cadw'r lôn fysiau
- Cyfleusterau croesi mwy diogel
- Llochesi bysiau bio-amrywiol
- Lôn feicio dau gyfeiriad sydd ar wahan
- Troad i'r dde yn unig wrth adael Plas Windsor

# Dwyrain Canol y Ddinas


Yn dilyn ymgynghoriad ym mis Mai 2019 fel rhan o Gynlluniau Aer Glân y Cyngor ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae cynllun Dwyrain Canol y Ddinas wedi'i addasu i gynnwys Cwr y Gamlas



- Seilwaith SDC
- Cyfleusterau croesi syth ar draws mwy diogel
- Lôn feicio dau gyfeiriad sydd ar wahan

# Dwyrain Canol y Ddinas

Yn dilyn ymgynghoriad ym mis Mai 2019 fel rhan o Gynlluniau Aer Glân y Cyngor ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae cynllun Dwyrain Canol y Ddinas wedi'i addasu i gynnwys Cwr y Gamlas



- Dim traffig drwodd ar hyd Stryd Guildford
- Mesurau blaenoriaeth i fysiau drwyddi draw
- Llochesi bysiau bio-amrywiol
- Rhywfaint o barcio i'r anabl i'w adleoli
- Mynediad i Gilgant Guildford i'w gynnal o'r de
- Cyfleusterau croesi syth ar draws gwell
- Ardal gyhoeddus cwr y gamlas well gweler t3
- Ardal gyhoeddus well ar gyfer Gorsaf Heol y Frenhines
- Mynediad i faes parcio Ffordd Churchill o'r de

# Dwyrain Canol y Ddinas

Yn dilyn ymgynghoriad ym mis Mai 2019 fel rhan o Gynlluniau Aer Glân y Cyngor ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae cynllun Dwyrain Canol y Ddinas wedi'i addasu i gynnwys Cwr y Gamlas



- Ardal i gael llinellau ffordd diwygiedig ac arwyddion newydd i ddarparu ar gyfer cynllun Dwyrain Canol y Ddinas.
- Cynllun parhaol i ddilyn ar gyfer datblygu'r ardal yn y dyfodol.
- Troad newydd i'r dde ar gyfer mynediad i ddanfoniadau i ganolfan siopa Capitol a phreswylwyr.
- Mesurau blaenoriaeth bws newydd i mewn ac allan o'r ddinas i Ffordd Churchill o Rhodfa Bute.

Gweledigaeth Drafnidiaeth Caerdydd

# Dwyrain Canol y Ddinas

Boulevarde De Nantes a Plas y Parc



- Coed a gerddi glaw yn cefnogi seilwaith SDC.
- Lôn feicio ddwy ffordd ar wahan



*Delweddu yn unig*



Gweledigaeth Drafnidiaeth Caerdydd

# Dwyrain Canol y Ddinas

Boulevarde De Nantes a Plas y Parc



- Coed a gerddi glaw yn cefnogi seilwaith SDC.
- Lôn feicio ddwy ffordd ar wahan



*Delweddu yn unig*



# Dwyrain Canol y Ddinas

Plas Dumfries, Heol Casnewydd a Rhodfa'r Orsaf


- Ynys fysiau symudol newydd gyda manau aros bws bioamrywiol
- Lôn feicio dau gyfeiriad sydd ar wahan
- Cyfleusterau croesi syth ar draws gwell i gerddwyr
- Coed a gerddi glaw yn cefnogi seilwaith SDC




*Delweddu yn unig*

# Cludiadau Ardaloedd i Gerddwyr

Mynediad Presennol



Mynediad yn y Dyfodol



# Llwybrau awgrymedig ar gyfer mynediad/allanfa maes parcio

Llwybrau mynediad ar gyfer mynediad i Feysydd Parcio, y manylir arnynt yn y cynllun isod.


Llwybrau ar gyfer mynediad i feysydd parcio



Llwybrau ar gyfer gadael meysydd parcio




Map mynediad cyffredinol



# Gwelliannau Trafnidiaeth Gyhoeddus

Mesurau blaenoriaeth bws newydd drwy Rodfa'r Orsaf, Ffordd Churchill a Rhodfa Bute:

- ✓ Blaenoriaeth bws newydd sy'n cysylltu'r dwyrain a de orllewin canol y ddinas
- ✓ Blaenoriaeth bws i gael mynediad i fynedfa ddeheuol y gyfnewidfa drafnidiaeth newydd
- ✓ Blaenoriaeth bws ar gyfer modd digwyddiadau canol y ddinas, yn ogystal â mynediad i'r gyfnewidfa drafnidiaeth ar ddiwrnodau digwyddiadau
- ✓ Gwell gallu o ran llwybrau traws ddinas
- ✓ Dolen fynediad fer newydd drwy Rodfa'r Orsaf a Ffordd Churchill, sy'n cysylltu â Gorsaf Heol y Frenhines
- ✓ Gwell cyfleusterau safle bws y tu allan i Orsaf Heol y Frenhines




# Gweledigaeth Drafnidiaeth Caerdydd

## Cyflawni'r Rhaglen



Bydd cyfres o waith galluogi yn mynd rhagddo i gyflawni'r rhaglen hon a bydd yn cynnwys ailgynllunio bolardiau mynediad ar Heol y Frenhines ac adleoli manau parcio i'r anabl.



# Dwyrain Canol y Ddinas

## Gwella Ansawdd Aer yng Nghaerdydd


Mae llygredd aer yn broblem leol a chenedlaethol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datgan mai ansawdd aer gwael yw'r penderfynydd amgylcheddol mwyaf arwyddocaol ym maes iechyd.

Mewn ymateb i ofyniad cyfreithiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, asesodd y Cyngor lefelau llygredd aer yng Nghaerdydd. Nodwyd y byddai lefelau nitrogen deuocsid (NO<sub>2</sub>) ar Stryd y Castell yn parhau i fod yn fwy na'r terfynau cyfreithiol oni bai bod mesurau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r lefelau llygredd.

Mae'r Cyngor wedi cynllunio a datblygu'r Cynllun hwn ar y cyd â chynllun Stryd y Castell gyda'r amcan allweddol o sicrhau bod lefelau llygredd yng Nghaerdydd yn cydymffurfio â therfynau cyfreithiol cyn gynted ag y bo modd. Cynhwyswyd y cynllun hwn yn ein Cynllun Aer Glân a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ddiwedd 2019.

Bydd y Cyngor yn ymgymryd â monitro amser real ar gyfarpar a osodwyd ar Stryd y Castell ac mewn mannau eraill yng nghanol y ddinas i ddangos y gwelliannau a ddaw o'r Cynllun i ansawdd yr aer. Bydd y data ar gael yn gyhoeddus ar-lein.

**“Mae aer glân yn hanfodol i fywyd o ansawdd da, ac ystyrir ansawdd aer gwael fel y perygl amgylcheddol mwyaf i iechyd y cyhoedd yn y DU.”  
Sefydliad Iechyd y Byd**



# Dwyrain Canol y Ddinas



## Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)

Pan fydd glaw yn disgyn yn yr amgylchedd naturiol, mae nodweddion naturiol fel coed, planhigion, gweiriau, pridd, ynghyd ag afonydd a nentydd yn helpu i brosesu'r dŵr hwn ac mae hyn yn ffurfio rhan annatod o'r cylch dŵr. Yn yr amgylchedd adeiledig, caiff camau arferol y cylch dŵr eu llesteirio'n ddifrifol. Mae'r problemau sy'n deillio o'r difrod i'r cylch hwn yn cynnwys llifogydd, llygredd ac erydu. Mae'r dŵr hwn na all fynd i mewn i'r cylch dŵr naturiol yn rhoi straen ychwanegol ar y system garthffosiaeth. Mae SDCau yn ddull naturiol o reoli dŵr wyneb drwy greu 'safle prosesu dŵr bychan'.

### Manteision SDCau:

- Mesurau gostegu traffig naturiol.
- Improve the micro-climate.
- Gwellu ansawdd yr aer.
- Dod â natur i'r amgylchedd trefol.

Mae llochesi bws bioamrywiol a Gerddi Glaw yn enghreifftiau o SDCau.

### Leoliadau plannu

Mae canopïau sy'n ffurfio ar frig coed, yn dal y glaw, sy'n anweddu'n raddol, gan leihau'r dŵr sy'n cyrraedd yr arwyneb.

Llochesi bws bioamrywiol: yn cefnogi ecosystemau ac yn darparu lleoliad hidlo dŵr glaw.

Llochesi bws bioamrywiol: yn cynnwys cyfuniad o blanhigion gwyrdd a blodau gwyllt. Byddan nhw'n denu ac yn cynnal pryfed a bywyd gwyllt arall.

Gardd Law

SAFLE BYSIAU  
BUS STOP

### Llochesi bws bioamrywiol

Gyda chyfuniad o wahanol blanhigion, maen nhw'n helpu i leihau ac arafu'r dŵr sy'n mynd i'r system ddraenio, a bydd to cyfan y lloches bws yn creu cynefin i gynnal pryfed a bywyd gwyllt arall. ynghyd ag amrywiaeth eang o flodau gwyllt.

### Gerddi Glaw

Mae Gardd Glaw fel arfer yn ardal wedi ei phlannu, gydag amrywiaeth o rywogaethau, ac mae'r planhigion yn cyflawni sawl swyddogaeth allweddol; yn dal a glanhau dŵr glaw a dŵr wyneb ffo. Mae'r cyfaint is o ddŵr naill ai'n draenio i gwrs dŵr naturiol neu i'r system ddraenio.

### Trawstoriad Gardd Law

Mae manau gwyrdd yn gwellu'r amgylchedd dinesig.

Caiff halogion eu tynnu o'r dŵr wyneb ffo gan y llystyfiant.


Gyli: caiff dŵr wyneb ei ddraenio i'r ardd law yn hytrach nag i ddraeniau'r ffordd fawr.

Troedffordd

Ardal hidlo: planhigion a llystyfiant yn helpu i waredu halogion cyn i'r dŵr fynd i mewn i'r systemau carthffosiaeth.

Lôn gerbydau

System ddraenio: cyfaint llai o ddŵr yn mynd i'r system.



# Dwyrain Canol y Ddinas



## Ynsoedd Bysus

### Dwyrain Canol y Ddinas

- Bydd rhai o'r safleoedd bws ar Stryd y Castell yn sefyll ar ynys rhwng y llwybr beicio a'r ffordd.
- Bydd croesfan sebra lle bydd beicwyr yn ildio i gerddwyr i fynd i'r ynys a chyrraedd y safleoedd bws.

### Mae Safleoedd Bws yn Wyrdd

- Caiff llawer o doeau y safleoedd bws newydd ar draws canol y ddinas eu plannu gyda llwyni a gwyrddni i helpu i annog pryfed pwysig i mewn i'n hamgylchedd.
- Bydd y safleoedd bws newydd gwyrddach hefyd yn helpu gyda phroblemau draenio dŵr, gan amsugno rhywfaint o'r dŵr glaw a'i ddargyfeirio o'n draeniau prysur.

